

Claire Marchant
Director of Social Services
Cardiff Council
County Hall
Atlantic Wharf
Cardiff
CF10 4UW

Date: 03 Awst 2020

Annwyl Claire Marchant,

**Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol
Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Caerdydd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithgarwch ymgysylltu, mewn perthynas â phobl hŷn (65 oed a throsodd), a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad a gynhelir â'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar 8 Hydref 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad a gynhelir â'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ar 8 Hydref 2019
- cyfarfod â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i adolygu hunanwerthusiad o waith mewn perthynas â hybu annibyniaeth i bobl hŷn (a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019) ar 20 Tachwedd 2019
- Cyd-arolygiad o Wasanaeth Troseddwy'r Ifanc (dan arweiniad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi) rhwng 3 a 7 Chwefror 2020
- gweithgarwch â phwyslais penodol blynyddol a gynhaliwyd ym maes gwasanaethau plant ar 25 a 26 Chwefror 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchu ein canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Bu galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol gan Gyngor Caerdydd. Mae hyn, ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod y galw wedi bod yn heriol iawn i wasanaethau plant dros y 12 mis diwethaf. Ehangwyd rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau i gynnwys gwastraff yn ogystal â thai a gwasanaethau cymdeithasol. O ystyried lefel a chymhlethdod y galw am wasanaethau cymdeithasol, mae gennym rywfaint o bryderon am y ddibyniaeth fawr ar y garfan o gyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr cynorthwyol sy'n cefnogi'r swydd hon. Mae swydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Plant) yn parhau i fod yn benodiad dros dro.

Mae'r cymorth corfforaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn gryf o hyd yng Nghyngor Caerdydd. Roedd newid i'r gyllideb ym mis Ionawr 2020 wedi lleddfu pwysau ariannol yn sylweddol. Mae gwasanaethau plant yn cael cymorth corfforaethol i recriwtio atodiad i'r farchnad ar gyfer swyddi gwag y mae'n anodd eu llenwi, er enghraifft. Gallai cymorth corfforaethol ychwanegol er mwyn i wasanaethau plant ddatblygu gweithlu cynaliadwy helpu i gyflymu'r broses recriwtio a sicrhau cadw staff.

Nododd Cyd-arolygiad o Wasanaeth Troseddwy'r Ifanc drefniadau ar gyfer y canlynol: llywodraethu ac arweinyddiaeth; staffio; partneriaethau a gwasanaethau; gwybodaeth a chyfleusterau, a methodd bob un o'r rhain â chyrraedd y safonau gofynnol. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi ymrwymo ar unwaith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan yr arolygwyr, ac wedi sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer hyn. Penodwyd cadeirydd annibynnol o fwrdd rheoli'r Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc i hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwasanaethau Oedolion yn mynd rhagddo. Mae gwaith ailstrwythuro wedi'i gwblhau ar y lefel strategol, gan gynnwys penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Mae haen rheoli gweithrediadau a haen ganolog ar waith. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio fesul cam gyda phwyslais ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn seiliedig ar gryfderau, sy'n pwysleisio'r hyn sy'n bwysig i bobl.

Mae gwasanaethau plant yng nghanol cyfnod o newid sylweddol. Amlinellir y weledigaeth i'r dyfodol yn Strategaeth Gwasanaethau Plant 2019-2022. Mae'r weledigaeth wedi'i seilio ar ddull seiliedig ar gryfderau a strwythurau dylunio gwasanaeth sy'n adlewyrchu teithiau plant drwy'r system gofal cymdeithasol. Mae pwyslais amlwg ar ddarparu cymorth cynnar, gan ddarparu cysondeb a llai o ddibyniaeth. Hyd yma, mae'r broses o gyflawni'r strategaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar feithrin gwytnwch yn yr haen rheoli gweithrediadau newydd ac ailstrwythuro'r prif gorff o wasanaethau plant yn dimau lleol. Mae AGC yn pryderu am gyfyngiadau yn y trosolwg o arweinwyr strategol ar arferion rheng flaen sy'n deillio o ddiffyg sefydlogrwydd mewn strwythurau rheoli. Mae'r tîm uwch-reolwyr wedi'i gryfhau'n sylweddol yn ddiweddar ac mae'n dod yn fwy sefydledig.

Yn ystod ein gweithgaredd â phwyslais penodol mewn gwasanaethau plant, gwelsom fod yr holl weithwyr proffesiynol yn ymrwymedig i gyflawni ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau. Roedd y staff wedi croesawu rhoi'r model gweithredu Arwyddion Diogelwch ar waith a'i deall yn gyffredinol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym eu bod o'r farn bod y model wedi rhoi'r adnoddau iddynt ymgysylltu'n effeithiol â phlant a theuluoedd, ynghyd â'r hyder iddynt gael barn y plentyn a gwneud eu gwaith yn dda. Roedd y gweithwyr cymdeithasol y gwnaethom eu cyfweld a'r ffeiliau achos a adolygwyd gennym yn adlewyrchu bod y gweithwyr yn gwybod beth oedd yn bwysig i'r plant a'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw.

Pobl

Mae Cyngor Caerdydd wedi ceisio barn pobl. Lluniwyd y Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol, a lansiwyd ym mis Mehefin 2019, ar y cyd â phobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofawyr. Nododd gwaith ymgysylltu a wnaed gan AGC gyda phobl a oedd wedi cael cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol fod y bobl, yn gyffredinol, o'r farn bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu trin â pharch ac urddas. Roedd plant a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwasanaethau Plant ac wrth ddylunio Caerdydd fel dinas sy'n gyfeillgar i blant. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu a dathlu i bobl, gan gynnwys gofawyr a staff, wedi cael eu cynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol drwy'r flwyddyn.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i ganolbwyntio ar y Cynnig Rhagweithiol, gan sicrhau bod pobl yn deall yr hyn sydd ar gael ac yn cael ei gynnig. Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Ar ôl cyfnod cychwynnol o wrthsefyll, mae'r gweithlu gwasanaethau oedolion o blaid newid ac yn cymryd rhan gadarnhaol mewn rhaglen waith fawr i ymgorffori dulliau seiliedig ar gryfderau. Bu trafodaethau â staff am y newidiadau sy'n mynd rhagddynt ym maes gwasanaethau plant. Er i'r newidiadau gael eu croesawu yn gyffredinol, mae rhoi'r newidau ar waith yn achosi cryn her i rai timau, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddau leuenctid. Dywedodd nifer o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw wrthym eu bod yn teimlo nad oedd y trafodaethau â nhw wedi bod yn ystyrlon, nad oedd eu syniadau'n cael eu gwerthfawrogi

nac yn dylanwadu ar ganlyniadau. Mae angen gwneud rhagor o waith ar gyfleu newidiadau er mwyn sicrhau mwy o ymrwymiad i weithredu gan y staff.

Mae cadw staff mewn gwasanaethau oedolion yn dda ar y cyfan, ac mae'r lefelau salwch ymhlith y staff yn isel. Fodd bynnag, mae diffyg gallu a dibyniaeth uchel ar weithwyr cymdeithasol o asiantaethau yn achosi problem fawr i wasanaethau plant. Mae'r broses recriwtio ar gyfer swyddi gweithwyr cymdeithasol gwag yn parhau, ond mae'r cynnydd yn parhau i fod yn araf. Y ganran ar gyfer swyddi gwag mewn gwasanaethau plant ar gyfer chwarter tri 2019-2020 oedd 32.9%. Mae hyn yn uwch nag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddiffyg cysondeb gwasanaeth i blant a theuluoedd yng Nghaerdydd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi'r cofrestriad gofynnol o staff gofal cartref. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, roedd 86% o'r gweithlu a gyflogwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Caerdydd wedi cofrestru ac roedd y rhan fwyaf o'r lleill yn y broses o wneud hynny. Roedd cant y cant o'r gweithlu gofal cartref o sectorau eraill wedi cofrestru.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae Cyngor Caerdydd wedi parhau i ailfodelu gwasanaethau gan newid y pwyslais i gymorth ac atal cynnar. Er bod timau ysbytai wedi bod dan bwysau, buddsoddwyd rhai adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i ryddhau pobl o'r ysbyty yn fwy amserol. Mae gwasanaeth 'Get Me Home' er mwyn helpu i ryddhau pobl o'r ysbyty ac i fyw yn annibynnol hefyd wedi cael ei dreialu ac mae bellach yn cael ei gyflwyno i wyth ward arall yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Yn y gymuned, bydd Un Pwynt Cyswllt yn sicrhau bod pob atgyfeiriad gan oedolion yn cael asesiadau risg mewn modd amserol. Mae hyn yn golygu y gellir atgfeirio rhai pobl at wasanaethau perthnasol eraill yn gynharach. Bu mwy o bwyslais ar lesiant, ymgysylltu â'r gymuned a byw yn annibynnol, ynghyd â phwyslais ar fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a lleihau unigrwydd drwy ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau am ddim, a grwpiau gan gynnwys rhai ar gyfer gofalwyr. Mae Swyddogion Cynhwysiant wedi bod yn rhoi cymorth i grwpiau lleol sydd wedi'u hangori mewn Hybiau Cymunedol.

Ar ddechrau 2019-2020 roedd rhai materion ynglŷn â gallu'r tîm diogelu oedolion a oedd yn effeithio ar amseroldeb ymholiadau. Yn dilyn hynny, mae'r tîm diogelu wedi'i ailstrwythuro ac mae'r gallu i arwain wedi'i atgyfnerthu. Mae'r newidiadau hyn wedi cychwyn rhai gwelliannau. Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau am y graddau y mae'r datblygiadau hyn wedi'u hymgorffori eto.

Mae rhoi'r Strategaeth Gwasanaethau Plant ar waith yn pwysleisio newid cydbwysedd gofal a chymorth fel bod mwy o blant yn byw gartref gyda'u teuluoedd Nid yw Cyngor Caerdydd yn allanolyn o ran ei gyfradd fesul 10,000 o blant sy'n cael gofal ledled Cymru. Serch hynny, mae nifer y plant sy'n cael gofal yn parhau i fod yn bryder. Yn chwarter tri 2019-2020, dechreuodd 88 o blant gael gofal (i fyny o 66 yn chwarter dau); gwelodd chwarter pedwar ostyngiad bach (18 o blant) o ran nifer. Maes arall sy'n peri pryder yw digonolrwydd

y math cywir o wasanaethau ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed, gan gynnwys prinder darpariaeth maethu a darpariaeth breswyl i blant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth. Mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweithio'n galed, gan gynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar-lein yn ogystal ag ymgysylltu â darparwyr preifat, i gynyddu nifer y lleoliadau. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu nifer o gartrefi plant bach yng Nghaerdydd.

Ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid oedd gan Gyngor Caerdydd blant mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.

Ym mis Mehefin 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cenedlaethol ar y gwaith a wnaethom mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ac rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Byddwn yn monitro datblygiad strategaeth gomisiynu a sefyllfa'r farchnad mawr ei hangen er mwyn mapio galw am wasanaethau yn y dyfodol ac i helpu i lywio'r farchnad.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Ni chawsom ymateb ffurfiol gan Gyngor Caerdydd ac felly gofynnwn eto i chi roi gwybod i ni a chadarnhau sicrwydd o'ch ymarfer mewn adolygiadau o'r fath. Er enghraifft, a gynhelir cyfarfodydd tarfu neu gyfarfodydd am leoliadau yn chwalu ac, os felly, sut y caiff yr hyn a ddysgir o adolygiadau/cyfarfodydd o'r fath eu cynnwys mewn ymarfer?

Partneriaethau

Mae amrywiaeth o bartneriaethau effeithiol sefydledig yn amlwg yn y sector statudol. Mae trefniadau rhanbarthol strategol rhwng awdurdod lleol Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'u datblygu'n dda gyda Byrddau Partneriaethau a Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn goruchwyllo'r gwaith o wella canlyniadau i bobl. Mae nifer o grwpiau cynllunio a chomisiynu ar y cyd, megis grwpiau anabledd, partneriaethau plant ac iechyd meddwl a threfniadau maethu a mabwysiadu yn arwain at ddarpariaeth gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ranbarthol a lleol. Sefydlwyd ffrydiau gwaith i weithredu'r camau a amlinellir yn y Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu 'Hyrwyddo Annibyniaeth a Gwella Bywydau' 2019-2024.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector yn effeithiol. Mae cydberthnasau yn y sector hwn wedi'u datblygu'n well ar gyfer gwasanaethau anabledd a phlant o gymharu â phobl hŷn. Er bod Cyngor Caerdydd yn awyddus i ddatblygu gwaith gyda phartneriaid yn y trydydd sector ymhellach, mae ymgyrch hefyd tuag at ddod â mwy o wasanaethau yn fewnol er mwyn cydbwysu'r farchnad ac atgyfnerthu gwytnwch.

Mae'r farchnad gofal cartref yng Nghaerdydd wedi'i datblygu'n dda. Yn ystod y flwyddyn hon, bu cryn dipyn o waith ar y cyd â darparwyr preifat yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â chost a gallu yn well, ynghyd â ffyrdd newydd o ddarparu gofal cartref. Mae'r

gweithgarwch hwn yn parhau i lywio'r gwaith o ail-gomisiynu gwasanaethau gofal cartref, sydd i'w gwblhau ym mis Ebrill 2021. Ffocws gwasanaethau newydd fydd cefnogi pobl yn hyblyg i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo gyda darparwyr yn cyd-gynhyrchu proses sicrhau ansawdd darparwr ar gyfer y model newydd.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn yn y gymuned. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd y byddwn yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau oedolion hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc. Archwilio Cymru, AGIC, Estyn